Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glancegin
# Maesgeirchen
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 1ST

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Glancegin yn ysgol gymunedol sydd wedi ei lleoli ar stad Maesgeirchen, yn ninas Bangor. Mae'n ardal a ystyrir yn un dan anfantais cymdeithasol, ac mae dros 97% o ddisgyblion yr ysgol yn byw mewn ardal sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yr awdurdod lleol yw Gwynedd.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi iaith Gwynedd sy'n amcanu at wneud plant yn ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd oed ymadael â'r ysgol yn un ar ddeg. Yn unol â'r polisi hwn, Cymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu medrau yn y ddwy iaith.

Daw disgyblion yr ysgol i gyd o stad Maesgeirchen. Ar hyn o bryd, mae 201 o ddisgyblion o oed meithrin hyd at 11 oed. Gan gynnwys y pennaeth a'r dirprwy, mae 11 o athrawon ac 11 o gymorthyddion. Ac eithrio disgyblion oed meithrin a derbyn, mae'r disgyblion wedi eu gosod mewn dosbarthiadau fesul blwyddyn ysgol.

Mae bron pob disgybl yn dod o gefndir gwyn Prydeinig, ac mae naw y cant ohonynt yn siarad Cymraeg adref.

Mae 42.3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio am ddim, a 41.3% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r canrannau hyn yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae tri disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mis Mawrth 2007, pryd y dyfarnwyd ei bod angen mesurau arbennig. Cafodd ei thynnu allan o fesurau arbennig ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glancegin yn 2012-2013 yw £3,660. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Glancegin yn safle 68 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol y dda oherwydd:

- o ystyried y lefel uchel o amddifadedd, mae safonau lles y disgyblion yn uchel iawn;
- bod yr athrawon a'r staff ategol yn ymroi'n drwyadl i roi cefnogaeth fugeiliol o safon uchel i'r holl ddisgyblion;
- bod safonau Ysgol Glancegin wedi dangos cynnydd sylweddol a thrawiadol ers yr arolygiad diwethaf;
- bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ym mhob maes dysgu ac yn cyflawni gwaith o safon cyffredinol dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- ar y cyfan, mae safonau llythrennedd yn dda; ac
- mae addysgu yn gyffredinol dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gweledigaeth glir gan y pennaeth, ac mae'n ei rhannu'n effeithiol;
- bod rolau a chyfrifoldebau'r tîm rheoli a'r staff yn eglur;
- bod arweinwyr a rheolwyr yn gosod disgwyliadau uchel;
- bod gan y pennaeth a'r tîm rheoli ddarlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella; a
- bod gan yr ysgol hanes diweddar o sicrhau cynnydd sylweddol mewn deilliannau disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwelliannau pellach yn y Gymraeg ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau cysondeb safonau ar gyfer pob grŵp penodol o ddisgyblion

A3 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddysgu yn yr ardal allanol yn rheolaidd

A4 Sicrhau bod meini prawf llwyddiant yng nghynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar safonau disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae safonau Ysgol Glancegin wedi dangos cynnydd sylweddol ac arwyddocaol iawn ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cymdeithasol a medrau iaith isel iawn. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn gwneud cynnydd cadarn ym mhob maes dysgu ac yn cyflawni gwaith o safon cyffredinol dda mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn canolbwyntio'n gyson ar eu tasgau. Maent yn dangos diddordeb yn eu gweithgareddau, ac yn datblygu'n briodol fel dysgwyr annibynnol. Gall y goreuon yng nghyfnod allweddol 2 drafod eu dysgu eu hunain yn ddeallus. Maent yn ymwybodol o'u targedau, ac yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Wrth dyfu drwy'r ysgol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn sgwrsio'n gynyddol hyderus am eu gwaith ac mewn amrywiol sefyllfaoedd o fewn y dosbarth. Defnyddiant eirfa addas, gan gynnwys yr hyn sy'n berthnasol i bynciau'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn siarad gyda'i gilydd yn Gymraeg pan nad ydynt dan oruchwyliaeth uniongyrchol oedolyn.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion cryfaf yn darllen yn rhugl a chywir ac ar y cyfan yn defnyddio goslef llais i gyfleu ystyr yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mwynhau darllen. Nid yw'r darllenwyr gorau bob amser yn dewis llyfrau sy'n ddigon heriol i'w lefel gallu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol. Erbyn cyrraedd pen uchaf cyfnod allweddol 2, maent yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod dda o ffurfiau i safon briodol mewn Cymraeg a Saesneg. Mae cyflwyniad gwaith y mwyafrif yn daclus a threfnus, er bod gwallau sillafu a iaith yn digwydd yn rhy aml.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion wedi gwneud cynnydd arwyddocaol o'u man cychwyn wrth ddechrau'r ysgol, er bod canlyniadau asesiadau athrawon 2012 yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru gyfan. O'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn y 25% isaf yn y tri maes a aseswyd, ac yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu cynnydd arwyddocaol iawn mewn canlyniadau asesiadau athrawon o 2008 (25.71% lefel 4+ yn y dangosydd pwnc craidd ) hyd at 2011 (76.19% yn y dangosydd pwnc craidd). Mae'r canlyniadau yn 2012 yn torri ar y patrwm o gynnydd, er yn parhau ar lefel sylweddol uwch na 2008. Maent yn gyffredinol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y pynciau craidd i gyd. Dros y blynyddoedd diweddar, ac eithrio 2012, o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran canran

y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn gyffredinol ym mhlith y 50% uchaf yn y dangosydd pwnc craidd, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau asesiadau athro mewn Cymraeg yn gyson is na'r pynciau craidd eraill.

Mae canlyniadau ar y lefel sy'n uwch na'r disgwyl yng Nghyfnod Allweddol 2 (Lefel 5+) yn debyg i'r cyfartaledd teulu mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, ac ychydig yn uwch mewn gwyddoniaeth. Yn gyffredinol, mae canlyniadau'r bechgyn yn sylweddol is na chanlyniadau'r merched. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim yn is na'r rheiny sydd ddim yn gymwys. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn tuag at eu targedau.

**Lles: Rhagorol**

Mae safonau lles y disgyblion wedi cynyddu'n sylweddol iawn ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol. Gallant drafod yn ddeallus bwysigrwydd bwyta a byw'n iach ac maent yn mwynhau'r cyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd yn ystod eu gwersi ac yn y clybiau amrywiol ar ôl ysgol.

Mae'r disgyblion yn groesawgar a chwrtais iawn ac maent yn ofalus iawn o'i gilydd, gan ddangos lefel uchel o barch. Yn gyffredinol, mewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arbennig o dda. Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar eu tasgau ac yn cydweithio'n hwylus gyda'i gilydd boed fesul pâr neu mewn grwpiau.

Mae aelodau'r cyngor ysgol, a'r pwyllgorau Eco, bwyta'n iach a chwaraeon yn ymfalchïo yn eu cyfrifoldebau, ac yn cymryd rhan arweiniol mewn nifer o weithgareddau. Teimlant fod eu llais yn bwysig a bod oedolion yn gwrando arnynt. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwasanaethau a digwyddiadau eraill yn y gymuned leol, ac yn cael blas ar drefnu digwyddiadau eu hunain o fewn yr ysgol.

Mae lefelau presenoldeb wedi cynyddu yn sylweddol ers 2008. Dros gyfnod o bedair blynedd, maent ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau cyfoethog sydd yn bodloni diddordeb ac anghenion y disgyblion yn dda. Mae'n ateb gofynion y cwricwlwm cenedlaethol yn llawn. Nid oes digon o gyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddefnyddio amgylchedd allanol yr ysgol. Mae'r defnydd diweddar o gynllun newydd thematig yn ogystal â system fewnol yr ysgol o ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd ac ymddygiad wedi arwain at gysondeb a dilyniant trwy'r ysgol gyfan.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl ac yn dangos dilyniant a chynnydd yn y medrau gyda sylw da yn cael ei roi i ddatrys problemau a medrau meddwl. Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i ychwanegu'r dimensiwn Cymreig yn y cynlluniau gwaith ac

mewn arddangosfeydd ar hyd yr ysgol. Trefnir i'r cynnwys fod mor berthnasol ac agos â phosib i'r disgyblion, er enghraifft bomio Maesgeirchen yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r ysgol yn darparu nifer o glybiau ar ôl ysgol er mwyn ymestyn profiad y disgyblion o ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ysgol yn ymrwymo'n dda i addysgu cynaliadwyedd ac mae ailgylchu a'r cyfnodau beicio yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol erbyn hyn. Mae'r gweithgarwch wedi arwain at wobrau Ysgol y Goedwig, Ysgol Werdd a Gwobr Arian Eco Sgolion. Trwy weithgareddau Masnach Deg a gwersi daearyddiaeth ac addysg bersonol a chymdeithasol, mae'r ysgol yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang yn dda er mai prin yw'r cysylltiad uniongyrchol â gwledydd eraill ar hyn o bryd.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol. Lle mae'r addysgu ar ei orau mae'r athrawon yn meddu ar ddisgwyliadau clir ac uchel, yn egluro nod y wers yn eglur, yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn barod ac yn cynnal cyflymdra'r wers yn gyson ac addas. Yn y rhain hefyd gwelir cwestiynu agored, defnydd da o feini prawf llwyddiant a defnydd effeithiol o staff cynorthwyol i ymestyn geirfa a hybu'r dysgu.

Lle nad oedd yr addysgu cystal, gwelwyd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc, nod y wers yn aneglur i'r disgyblion a diffyg gwahaniaethu digonol i sicrhau bod pawb yn llwyddo yn y dasg.

Nid yw disgwyliadau athrawon o ran defnydd a safon y Gymraeg yn ddigon cyson.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn amlwg ym mhob dosbarth ac yn rhan annatod o athroniaeth dysgu ac addysgu'r ysgol gyfan. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau mae defnydd effeithiol o amrywiol strategaethau sy'n helpu disgyblion i ddeall eu dysgu ac i wella ansawdd eu gwaith.

Mae'r ysgol yn datblygu gweithdrefn effeithiol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd dysgwyr ac yn cymedroli gwaith er mwyn sicrhau cysondeb. Caiff rhieni/gofalwyr wybodaeth dda am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant. Mae'r adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn rhagorol. Mae'r athrawon a'r staff ategol yn ymroi'n drwyadl i roi cefnogaeth fugeiliol o safon uchel sydd yn ateb anghenion yr holl ddisgyblion. Maent yn gweithredu ystod o strategaethau effeithiol yn gyson a chadarn i feithrin parch at eraill a hybu ymddygiad da. O ganlyniad, mae safonau lles disgyblion yn y blynyddoedd diwethaf yn dangos cynnydd arwyddocaol iawn. Mae addysg iechyd, diogelwch a lles yn cael lle amlwg yng ngweithgareddau a bywyd bob dydd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn elwa'n sylweddol ar arbenigedd ystod eang o wasanaethau er mwyn cynnal iechyd personol a chymdeithasol disgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda seicolegydd addysg i greu cynllun ymyrraeth a dogfen monitro cynnydd sy'n cael effaith glir ar gynnydd disgyblion, ac ar wella eu dysgu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn iawn. Mae yma systemau effeithiol i adnabod anghenion unigolion o oed cynnar ac i asesu cyflawniad a chynnydd yr unigolyn yn gyson.

Mae tîm cynhwysiad yr ysgol yn darparu cymorth trylwyr i athrawon dosbarth ac yn cydweithio'n agos gyda nhw i sicrhau dilyniant a chysondeb yng nghynnydd disgyblion ag anghenion ychwanegol. O ganlyniad i'w waith, mae'r ysgol gyfan wedi datblygu trefn effeithiol iawn o ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd ac ymddygiad sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae cymuned yr ysgol yn un llawn gofal a chynhwysol iawn lle mae pob un yn bwysig a phawb yn dangos parch tuag at ei gilydd. Mae'r cysylltiad gweithredol rhwng yr ysgol a'i chymuned gyfagos, a'r strategaethau cadarnhaol sy'n cael eu defnyddio gan y pennaeth a'r staff i hyrwyddo hunan-barch y disgyblion, wedi cyfrannu yn effeithiol iawn tuag at greu yr ethos cartrefol. Mae hyn yn gryfder amlwg.

Gwneir defnydd effeithiol o bob ystafell yn yr adeilad gan ddefnyddio rhai i sefydlu adnoddau ychwanegol. Enghraifft arbennig o dda yw Yr Aelwyd ar gyfer gweithgareddau y grŵp maethu sydd wedi llwyddo i godi hyder a gwella cyflawniad disgyblion unigol. Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau pwrpasol i ateb gofynion y disgyblion, ac mae'r athrawon a'r staff ategol yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt. Er bod ffurf ac oed yr adeilad yn cynnig rhai sialensiau mae'r ysgol yn ymdrechu'n dda i sicrhau ei fod yn ddeniadol a symbylus. Mae'r athrawon yn defnyddio'r tir allanol yn effeithiol, gan gynnwys yr ardal goediog, ond nid yw'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ei datblygu hyd yma.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth, ac mae hi wedi ei rhannu'n effeithiol gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae rolau a chyfrifoldebau'r tîm rheoli a'r staff yn eglur ac mae cyfarfodydd, ar y cyfan, yn canolbwyntio'n addas ar flaenoriaethau'r ysgol, sy'n rhoi sylw arbennig o dda i les y disgyblion. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gosod disgwyliadau uchel.

Mae'r llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ac maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Maent yn gyfarwydd â blaenoriaethau'r ysgol ac yn dechrau cefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol. Serch hynny, nid yw'r corff llywodraethol bob amser yn herio'r ysgol ddigon ynglŷn â safonau.

Mae'r ysgol yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol ar y cyfan. Mae pwyslais perthnasol ar wella llythrennedd a rhifedd ac ar ddatblygu strategaethau asesu sy'n helpu disgyblion i wybod sut i wella'u gwaith. Mae'r staff

wedi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn ddigonol, ond nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i weithio yn yr ardal allanol yn rheolaidd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr wedi cynllunio amserlen hunanarfarnu addas, sy'n rhoi sylw priodol i ystod o weithgareddau, gan gynnwys dadansoddi data, monitro gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. O ganlyniad, mae gan y pennaeth a'r tîm rheoli ddarlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Trwy ddyfalbarhad dros gyfnod, mae'r ysgol wedi llwyddo i ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf yn dda.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl ac mae'r cysylltiad â'r cynllun gwella ysgol yn gadarn. Fodd bynnag, mae gormod o flaenoriaethau yn y cynllun cyfredol. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau a chamau penodol, amserlen weithredu ddefnyddiol a meini prawf llwyddiant. Ar y cyfan, mae'r dangosyddion llwyddiant yn ffocysu'n briodol ar ddeilliannau'r disgyblion ond weithiau maent yn rhy gyffredinol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r athrawon a staff cynorthwyol yn cydweithio'n dda. Mae pawb wedi elwa o ddatblygiad proffesiynol ac, o ganlyniad, maent yn sicrhau bod eu medrau a'u gwybodaeth yn effeithio'n bositif ar ddeilliannau'r disgyblion. Er enghraifft, mae pob un o'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad positif yn gyson i sicrhau ethos cadarnhaol ar draws yr ysgol ac mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i les y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu partneriaethau cadarn gyda rhieni, y gymuned ac yn enwedig gydag ystod eang o asiantaethau amlddisgyblaethol a sefydliadau gwirfoddol. Mae'r cysylltiadau hynny yn dylanwadu'n gryf ar ddeilliannau'r disgyblion a'u teuluoedd, yn arbennig mewn perthynas â'u hyder, hunanymwybyddiaeth a lles.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ystafell arbennig yn yr ysgol er mwyn hwyluso cyfarfodydd rhwng rhieni a gwasanaethau sy'n hybu lles disgyblion. Mae'r fenter hon yn sicrhau presenoldeb plant a'u rhieni mewn apwyntiadau pwysig gyda'r therapydd iaith a lleferydd, er enghraifft. Mae'r cydweithio gyda'r grŵp Dechrau'n Deg, sydd wedi ei leoli ar safle'r ysgol, yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion sy'n dechrau'r ysgol.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned yn gryf. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau amrywiol a chyngherddau yn yr eglwys leol, ac mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu hyder y plant a'u balchder yn eu cymuned. Mae gan yr ysgol bartneriaeth barhaol gyda'r brifysgol sydd wedi effeithio ar safonau llythrennedd grŵp penodol o ddisgyblion.

Mae cynllun trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd yn gyffredinol addas ac yn helpu'r disgyblion i fod yn barod ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth hon yn hyrwyddo cysylltiadau cwricwlaidd a bugeiliol. Mae'r ysgol wedi dechrau gweithio gydag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion. Serch hynny, nid yw'r partneriaethau hyn yn ddigon cryf eto i sicrhau

cysondeb a chydweithio ystyrlon rhwng yr ysgolion cynradd yn y dalgylch.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n briodol. Mae is-bwyllgor cyllid yr ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'r tîm rheoli a'r llywodraethwyr yn deall pwysigrwydd clustnodi digon o arian i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r gwelliannau y tu fewn i'r adeilad wedi creu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol, sydd wedi cael effaith arwyddocaol ar agweddau'r disgyblion tuag at eu hysgol ac ar forâl y staff.

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cynorthwyol a defnyddir y staff ategol yn effeithiol iawn i gefnogi'r addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad yn dda. Mae rheolwyr yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant addas, sy'n ateb anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol yn llawn.

Oherwydd bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn a bod safonau wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dengys canlyniadau asesu gwaelodlin bod mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda lefel isel o fedrau.

Ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5 neu uwch), mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ym mhob maes dysgu sy'n cael ei asesu. O'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn gyson yn y 25% isaf.

Mae merched yn cyflawni'n sylweddol well na bechgyn, yn arbennig mewn datblygiad iaith a llythrennedd a'r dangosydd cyfnod sylfaen, sy'n ystyried canlyniadau pob maes.

Mae canlyniadau ar y lefel uwch na'r disgwyl (Deilliant 6+) yn dangos patrwm tebyg, ac eithrio mewn datblygiad mathemategol, sy'n gyfartal â pherfformiad y teulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau athrawon ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) yn dangos cynnydd cyffredinol sylweddol ym mhob pwnc craidd o 2008 hyd at 2011, gyda gostyngiad yn 2012. Mae canlyniadau 2010 ac 2011 yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Maent yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn 2012.

Yn 2012, o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol ymhlith y 25% yn y dangosydd pwnc craidd, Cymraeg a Saesneg, ac ymhlith y 50% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Nid yw hyn cystal perfformiad â'r ddwy flynedd flaenorol.

Mae canlyniadau'r bechgyn yn sylweddol is na chanlyniadau'r merched ym mhob pwnc dros gyfnod o amser, ac mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn gyson is na'r gweddill. Nid oes digon o ddisgyblion o gefndir ethnig i wneud unrhyw ddadansoddiad ystyrlon o'u perfformiad.

Mae canlyniadau ar y lefel sy'n uwch na'r disgwyl yng Nghyfnod Allweddol 2 (Lefel 5+) yn debyg i'r cyfartaledd teulu mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, ac ychydig yn uwch mewn gwyddoniaeth.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron Dysgwyr**

Derbyniwyd 88 o holiaduron oddi wrth ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ymateb yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn, ac yn fwy positif na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

Mae'r disgyblion i gyd yn dweud:

- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach
- bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn yr ysgol;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae bron pob disgybl yn dweud:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod gyda phwy is siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yw gwaith yn anodd; a
- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio, a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith.

**Holiaduron Rhieni**

Ymatebodd 67 o rieni i'r holiaduron, sydd yn ganran sylweddol uwch na'r arfer mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn sylweddol fwy positif nac ymatebion ysgolion ar draws Cymru.

Dywedodd pob rhiant eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol a bod:

- eu plentyn wedi cael cymorth i ymsefydlu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- yr addysgu'n dda;
- staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau.
- eu plant yn cael eu hannog i gadw'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- yr ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywedodd bron pob rhiant:

- bod eu plant yn hoffi’r ysgol hon;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod yr ysgol yn rhoi gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant yn yr ysgol;
- eu bod yn teimlo’n esmwyth ynglŷn a gofyn cwestiwn i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- bod plant yn cael eu paratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol nesaf; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliad.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Morgan | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Mari Phillips | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Morris-Jones | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.